

Fframwaith cyffredin dros dro: Diogelwch a hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid Papur briffio

Hydref 2021



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
ymchwil.senedd.cymru/

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Tel: **0300 200 7571**

Email: **lucy.valsamidis@senedd.wales**

Twitter: **[@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)**

Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**

© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2021

Ceir atgynhychu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhychu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Fframwaith cyffredin dros dro: Diogelwch a hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid

Papur briffio

Hydref 2021

Awduron:
Lucy Valsamidis a Sara Moran



Cynnwys

1. Cyflwyniad.....	1
1.1. Beth yw fframweithiau cyffredin?.....	1
1.2. Y fframwaith diogelwch a hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid.....	1
2. Y cyd-destun polisi.....	3
2.1. Cyfraith a pholisi yr UE.....	3
2.2. Cyfraith a pholisi yn y dyfodol ar draws y DU	3
3. Deddfwriaeth	5
3.1. Dargadw cyfraith yr UE: trosglwyddo swyddogaethau.....	5
3.2. Materion o bwys.....	7
4. Rheoli ymwahanu: egwyddorion	10
4.1. Egwyddorion y fframwaith	10
4.2. Egwyddorion cyfreithiol.....	11
4.3. Materion o bwys	13

5. Rheoli ymwahanu: ymarfer	16
5.1. Strwythurau ar y cyd	16
5.2. Gwneud penderfyniadau a datrys anghydfodau	16
5.3. Meysydd y tu allan i gwmpas y fframwaith	19
5.4. Materion o bwys.....	20
6. Rhwymedigaethau rhyngwladol.....	24
6.1. Rhwymedigaethau rhyngwladol y DU	24
6.2. Rhwymedigaethau sy'n codi o'r berthynas rhwng y DU a'r UE...27	
6.3. Materion o bwys.....	32
7. Ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.....	35
8. Adolygu a diwygio	37
8.1. Y broses adolygu	37
8.2. Materion o bwys.....	37

1. Cyflwyniad

1.1. Beth yw fframweithiau cyffredin?

Mae Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau datganoledig wedi **cytuno i sefydlu fframweithiau cyffredin** i reoli ymwahanu rhwng gwahanol rannau o'r DU mewn rhai meysydd polisi a oedd yn arfer cael eu llywodraethu ar lefel yr UE. Mae cytundebau fframwaith cyffredin fel arfer yn gosod prosesau i'r llywodraethau benderfynu pryd i fabwysiadu'r un dulliau ar gyfer ymdrin â chyfraith a pholisi a phryd i ymwahanu.

Mae **Llywodraeth y DU yn rhannu fframweithiau cyffredin** i gategoriâu 'deddfwriaethol' ac 'anneddfwriaethol'. Yn ymarferol, mae fframweithiau cyffredin yn gytundebau anneddfwriaethol gan fwyaf, ond gallant fod yn seiliedig ar ddeddfwriaeth. Mae pob fframwaith cyffredinol yn wahanol, ond fel arfer maent yn nodi prosesau i lywodraethau'r DU benderfynu pryd i fabwysiadu'r un dull gweithredu o ran cyfraith a pholisi a phryd i ymwahanu.

Mae'r llywodraethau wrthi'n cynllunio **26 o fframweithiau cyffredin i Gymru**, ac mae'r mwyafrif ohonynt bellach ar waith dros dro. Hyd yn hyn **dim ond saith sydd wedi'u cyhoeddi ar gyfer gwaith craffu**.

Mae'r briff hwn yn edrych ar sut gallai'r fframwaith dros dro ar ddiogelwch a hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid lywio cyfraith a pholisi yng Nghymru yn y maes hwn. Mae'r awduron yn ddiolchgar i bawb a wnaeth sylwadau ar ddrafftiau cynharach o'r papur hwn.

1.2. Y fframwaith diogelwch a hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid

Cyhoeddwyd y fframwaith cyffredin dros dro ar gyfer **Diogelwch a Hylendid Bwyd a Bwyd Anifeiliaid** ar 27 Tachwedd 2020, wedi i Lywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig gytuno arno dros dro. Rhwng mis Rhagfyr 2020 a mis Mawrth 2021, **fe wnaeth Pwyllgor Materion Allanol y Senedd gynnal gwaith craffu cychwynnol** ar y fframwaith.

Mae'r fframwaith yn cynnwys 'Cytundeb Amlinellol Fframwaith' a 'Choncordat'. Mae'r Cytundeb Amlinellol Fframwaith yn nodi trefniadau ar gyfer gweithio ar y cyd. Mae'r Concordat yn gosod egwyddorion ar gyfer gweithio rhwng y llywodraethau a bydd Gweinidogion yn ei dderbyn yn ffurfiol.

Mae'r fframwaith yn nodi sut y bydd Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig yn gweithio gyda'i gilydd i benderfynu ble i alinio a ble i ymwahanu ym maes rheoleiddio diogelwch a hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid ar ôl Brexit. Dyma yw un o'r fframweithiau mwy cymhleth ac eang, sy'n adlewyrchu ehangder y maes polisi hwn, ond mae'n rhannu nodweddion cyffredin â'r mwyafrif o fframweithiau eraill sydd wedi'u cyhoeddi.

Mae'r briff hwn yn ystyried y canlynol:

- y cyd-destun polisi yng Nghymru ac ar draws y DU;
- deddfwriaeth yr UE a ddargedwir yn y maes hwn a throsglwyddo swyddogaethau o'r UE i awdurdodau domestig;
- sut mae'r fframwaith yn ceisio rheoli ymwahanu rheoliadol ac yn rhyngweithio â Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020;
- sut mae'r fframwaith yn ceisio rheoli gweithrediad rhwymedigaethau rhyngwladol a chynrychiolaeth ddatganoledig ar lefel ryngwladol;
- sut mae rhanddeiliaid wedi gallu ymgysylltu â'r fframwaith; a
- sut caiff y fframwaith ei adolygu a'i ddiwygio yn y dyfodol.

Mae'r llywodraethau'n cydnabod bod y **fframwaith yn rhywbeth y mae'n rhaid parhau i weithio arno**. Mae negodiadau'n parhau ar sut y dylai'r fframweithiau cyffredin rhyngweithio â'r canlynol:

- Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020;
- strwythurau rhynglywodraethol; a
- rhwymedigaethau rhyngwladol.

Bydd disgwyl i'r Senedd chwarae rhan barhaus o ran craffu ar weithrediad y fframwaith.

2. Y cyd-destun polisi

Mae cyfraith yr UE a ddargedwir yn darparu fframwaith ar gyfer cyfraith a pholisi diogelwch a hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid. Ar ddiwedd y **cyfnod pontio** ar 31 Rhagfyr 2020, mae bellach gan y DU a'r llywodraethau datganoledig ymreolaeth i reoleiddio ar wahân ac yn wahanol i'r UE. Mae gan bob un o'r pedair llywodraeth ddull gweithredu gwahanol yn hyn o beth.

2.1. Cyfraith a pholisi yr UE

Mae deddfwriaeth diogelwch a hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid (FFSH) yn faes **cyfraith yr UE sydd wedi'i gysoni** i raddau helaeth, gan gwmpasu:

- diogelwch cyffredinol o ran bwyd a bwyd anifeiliaid;
- safonau diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid;
- rheolaethau swyddogol; a
- rheolaethau iechyd y cyhoedd ar fwyd sy'n cael ei fewnforio.

Mae cyfraith yr UE ar ddiogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid yn gwneud tri phrif beth:

- yn pennu egwyddorion cyffredinol o ran sut y dylid rheoleiddio diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid;
- yn nodi rheolau penodol mewn rhai meysydd (fel rheolaethau iechyd y cyhoedd ar gyfer mewnforion bwyd); ac
- yn darparu ar gyfer awdurdodi rhai cynhyrchion ar lefel yr UE cyn bod modd rhoi rhai cynhyrchion ar y farchnad (fel ychwanegion bwyd).

Mae deddfwriaeth ddomestig y DU a Chymru yn gorfodi ac yn gweithredu'r gyfraith hon ac yn nodi sut y dylid rheoli **achosion o fwyd a bwyd anifeiliaid anniogel**.

2.2. Cyfraith a pholisi yn y dyfodol ar draws y DU

Mae pedair llywodraeth y DU oll wedi mabwysiadu dulliau gweithredu gwahanol o ran alinio â chyfraith a pholisi'r UE yn y dyfodol, neu ymwahanu:

- Yn ystod negodiadau'r DU a'r UE, **awgrymodd Llywodraeth ddiwethaf Cymru** ei bod am weld aliniad parhaus â chyfraith yr UE. Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth bresennol Cymru wedi gosod safbwynt ar hyn.

- Mae Llywodraeth y DU wedi sefydlu a **Tasglu Arloesi, Twf a Diwygio Rheoleiddio**. Mae'r tasglu hwn wedi cyhoeddi adroddiad yn cynnig lle y gallai ymwahanu gynnig cyfleoedd, gan gynnwys newid rheoleiddio bwyd anifeiliaid a golygu genynnau ym maes amaethyddiaeth. **Ymatebodd Llywodraeth y DU** i'r adroddiad hwn ym mis Medi 2021.
- Mae Llywodraeth yr Alban yn bwriadu parhau i alinio â chyfraith yr UE mewn sawl maes gan ddefnyddio pwerau yn **Neddf Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (Parhad) (Yr Alban) 2021**.
- Bydd Gogledd Iwerddon yn parhau i alinio â chyfraith yr UE lle bo hynny'n ofynnol o dan **Brotocol Gogledd Iwerddon ac Iwerddon** (Protocol Gogledd Iwerddon). Mae hyn yn cynnwys cyfraith FFSH, mae'n rhaid i fwyd a bwyd anifeiliaid sy'n cael ei gynhyrchu ym Mhrydain Fawr gydymffurfio â chyfraith yr UE i gael ei werthu yng Ngogledd Iwerddon.

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi amlinellu cynlluniau ar gyfer newidiadau i bolisi FFSH ar ôl diwedd y cyfnod pontio. Mae rhwng strategaethau bwyd a diod hirdymor ar hyn o bryd.

Ym mis Gorffennaf 2020, fe wnaeth Llywodraeth flaenorol Cymru **lansio y cynllun adfer COVID-19** byrdymor (12-18 mis) ar gyfer y diwydiant. Mae'r cynllun adfer yn pontio'r **cynllun gweithredu ar gyfer y diwydiant bwyd a diod 2014-2020** a'r **strategaeth tymor hwy newydd** arfaethedig, yr ymgynghorwyd arni yn 2019. Mae gwaith ar y strategaeth newydd wedi'i oedi o ganlyniad i'r ymateb i'r pandemig. **Disgwylir i'r strategaeth derfynol gael ei chyhoeddi yn ddiweddarach yn 2021**.

3. Deddfwriaeth

Tra'r oedd y DU yn aelod o'r UE, roedd yn rhaid i'r DU ac awdurdodau datganoledig gydymffurfio â chyfraith yr UE ar ddiogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid. Fe wnaeth Llywodraeth y DU ddeddfu yn Neddfa yr UE (Ymadael) 2018 i **'ddargadw' y rhan fwyaf o gyfraith yr UE** a chaniatau i'r llywodraethau 'gywiro' y gyfraith hon drwy reoliadau fel ei bod yn gallu gweithio mewn cyd-destun domestig.

Roedd awdurdodau'r UE yn arfer cyflawni ystod o swyddogaethau rheoleiddio ar ran y DU mewn perthynas â diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid. Mae **Llywodraeth y DU** a **Llywodraeth Cymru** wedi gwneud nifer fawr o reoliadau i 'gywiro' cyfraith FFSH yr UE a ddargedwir, gan drosglwyddo'r swyddogaethau hyn i gyrff domestig. Fe wnaeth **yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) gynnal ymgynghoriad** ynghylch ei dull o gywiro cyfraith FFSH yn 2018.

Mae rheoleiddio FFSH o fewn cwmpas Protocol Gogledd Iwerddon. O dan y Protocol, mae cyfraith berthnasol FFSH yr UE yn parhau i fod yn gymwys i Ogledd Iwerddon, ond nid i weddill y DU. Diwygiwyd deddfwriaeth gywiro cyn diwedd y cyfnod pontio i adlewyrchu hyn.

3.1. Dargadw cyfraith yr UE: trosglwyddo swyddogaethau

Pwerau gweinidogol

Mae deddfwriaeth gywiro yn trosglwyddo pwerau o'r Comisiwn Ewropeaidd i Weinidogion ym mhob rhan o Brydain Fawr. Mae hyn yn cynnwys pwerau i wneud newidiadau i gyfraith FFSH drwy is-ddeddfwriaeth ac i gymeradwyo ac awdurdodi cynhyrchion cyn iddynt fynd i'r farchnad.

O dan gyfraith yr UE, mae'n ofynnol i Comisiwn yr UE ofyn am gyngor pwyllgorau cynrychiolwyr yr Aelod-wladwriaethau wrth wneud penderfyniadau penodol, fel awdurdodi cynhyrchion cyn iddynt fynd i'r farchnad. Pwyllgoreg yw'r enw ar hyn. Gan ddefnyddio'r weithdrefn ym **Mhenderfyniad y Cyngor Ewropeaidd 1999/468/EC**, rhaid i'r Comisiwn gyflwyno penderfyniadau arfaethedig i'r pwyllgor eu cymeradwyo. Cefnogir y pwyllgor gan weithgorau arbenigol. Os na fydd y pwyllgor yn cymeradwyo'r penderfyniadau, rhaid eu cyfeirio at y Cyngor Ewropeaidd a rhaid hysbysu Senedd Ewrop.

Mae'r fframwaith yn nodi mai'r ASB oedd yn cynrychioli'r DU ar bwyllgorau perthnasol tra roedd y DU yn yr UE, gan lunio safbwynt y DU drwy ymgynghori

â'r Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau datganoledig. Mae'n nodi y gwnaed 76 o benderfyniadau yn 2016.

Mae deddfwriaeth gywiro yn dileu'r weithdrefn pwyllgoreg. Mae'n dargadw'r egwyddor tryloywder a ddarperir gan Erthygl 9 o **Reoliad (EC) Rhif 178/2002**. Mae hyn yn nodi y bydd gwaith ymgynghori cyhoeddus agored a thryloyw wrth baratoi, gwerthuso ac adolygu cyfraith bwyd, ac eithrio mewn amgylchiadau brys.

Yr Asiantaeth Safonau Bwyd

Mae Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop (EFSA) yn cynnig cyngor gwyddonol a swyddogaethau asesu risg ar lefel yr UE. Mae'r Comisiwn yn ystyried barn EFSA wrth lunio newidiadau i bolisi FFSH ac awdurdodi cynhyrchion. Mae'r ddeddfwriaeth gywiro yn trosglwyddo swyddogaethau rheoli risg o Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop i'r ASB a Safonau Bwyd yr Alban (FSS).

Mae'r ASB yn adran anweinidogol o Lywodraeth y DU. Mae'n gyfrifol am ddatblygu a gweithredu polisi diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae FSS yn gyfrifol am ddiogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid yn yr Alban. Ceir **Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth** rhwng yr ASB ac FSS.

Enghraifft: Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid a Addaswyd yn Enetig (Diwygio ac ati.) (Ymadael â'r UE) 2019

Mae briff Arsyllfa Polisi Masnach y DU, sef **Brexit food safety legislation and potential implications for UK trade** (Tachwedd 2019), yn rhoi trosolwg o newidiadau o ran cywiriadau i gyfraith yr UE mewn rhai meysydd diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid, gan roi'r gyfraith ar awdurdodiadau GMOs fel enghraifft. Mae'n nodi bod yr offeryn statudol yn disodli'r canlynol:

- EFSA gydag awdurdodau diogelwch bwyd ym mhob un o wledydd y DU;
- rolau'r Comisiwn a'r Pwyllgor Sefydlog o ran awdurdodiadau a diwygio elfennau nad ydynt yn hanfodol o'r ddeddfwriaeth gyda Gweinidogion;
- rôl y Comisiwn o ran gweinyddu'r drefn gyda'r ASB ar gyfer cyflwyno adroddiadau monitro;
- 'labordy cyfeirio y Gymuned' gyda labordy cyfeirio neu 'ddadansoddwr cyhoeddus' yn ôl disgrisiwn y Gweinidogion.

Dadl yr awduron yw bod hyn yn golygu llai o gadw cydbwysedd ar bŵer Gweinidogol, o'i gymharu â chyfraith wreiddiol yr UE.

Mae **memorandwm esboniadol Llywodraeth y DU i'r offeryn statudol** yn nodi ei fod yn gwneud mân welliannau technegol i gywiro diffygion sy'n codi yn sgil ymadawiad y DU â'r UE.

Fe wnaeth **Llywodraeth Cymru gydsynio** i'r offeryn ar y sail '[nad] oes unrhyw wahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru/ASB Cymru a Llywodraeth y DU (ASB y DU) o ran y polisi ar gyfer y cywiriadau'.

3.2. Materion o bwys

Deddfwriaeth a restrir yn y fframwaith

Mae Atodiadau 1 a 2 i'r fframwaith yn rhestru'r ddeddfwriaeth sydd yng nghwmpas y fframwaith. Mae hyn yn bwysig ar gyfer deall pryd y bydd y fframwaith yn gymwys.

Mae **Atodiad 2** yn rhestru prif ddeddfwriaeth yr UE a ddargedwir sydd yng nghwmpas y fframwaith.

Mae Atodiad 2 ond yn rhestru deddfwriaeth yr UE a ddargedwir sy'n gymwys ledled Prydain Fawr, nid ar gyfer pob un o wledydd Prydain Fawr. Er enghraifft, mae'n rhestru Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Iechyd Planhigion ac ati) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020, ond nid Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Ffioedd Iechyd Planhigion ac ati) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020 .

Mae **Atodiad 1** i'r fframwaith yn rhoi trosolwg o ddeddfwriaeth gorfodi domestig mewn rhai meysydd polisi FFSH. Mae'n enwi gorfodaeth ddomestig berthnasol i Loegr yn unig, gan nodi bod rheoliadau cyfatebol ar wahân ar waith yn y gwledydd datganoledig.

Deddfwriaeth yn y dyfodol

Mae **dadansoddiad fframweithiau cyffredin** Llywodraeth y DU o fis Medi 2020 yn rhestru FFSH fel maes lle gallai fod angen fframwaith cyffredin 'deddfwriaethol', gan nodi:

In order to determine whether a framework is legislative, policy teams assess whether or not there is a clear link to new primary legislation being developed that is essential to give effect to at least some governance elements of the framework, or the policy environment in which the framework will operate, including determining and supplying the subject matter of the framework.

Nid yw'r fframwaith yn dweud bod ganddo unrhyw gysylltiadau â deddfwriaeth sylfaenol newydd neu sydd ar y gweill. Fodd bynnag, mae'n nodi:

Officials from the four nations will undertake an exercise in 2021 to assess where within FFSH policy areas (within scope of the Framework) it would be beneficial to have concurrent powers available so that one statutory instrument can be used to implement consistent decisions across the UK

Mae 'pwerau cydredol' yn bwerau cyfatebol a roddir i Weinidogion y DU a Gweinidogion Cymru. Byddent yn caniatáu i Lywodraeth y DU weithredu mewn meysydd datganoledig.

Mae'r fframwaith yn nodi y byddai unrhyw bwerau cydredol yn gofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru ac y byddent yn debygol o fod yn gyfyngedig i rai meysydd technegol.

Ni fyddai rheoliadau o'r fath yn gofyn am gydsyniad y Senedd. Byddai pwerau cydredol yn gyfystyr â swyddogaethau Gweinidog y Goron at ddibenion Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Ni fyddai'r Senedd yn cael dileu nac addasu'r swyddogaethau hyn oni bai bod Llywodraeth y DU yn gwneud Gorchymyn Adran 109 i ddileu'r cyfyngiad hwn.

Cymhlethdod

Mae rhai rhanddeiliaid wedi mynegi pryderon nad yw'r fframwaith yn rhoi darlun llawn o gymhlethdod cyfraith a pholisi FFSH yr UE. Mewn tystiolaeth i Bwyllgor Iechyd a Chwaraeon blaenorol Senedd yr Alban, dywedodd **Dirprwy Gyfarwyddwr Sefydliad Maeth ac Iechyd Rowett, yr Athro Paul Haggarty**:

The framework provides a good overview of the areas currently covered by the EU and EFSA [...] However, these are mostly presented as lists and it is not clear whether the complex nature of the linkages between these processes has been fully appreciated. The whole area of regulation and enforcement in relation to food and feed safety is immensely complicated and it is not possible to summarise all of the linkages, crossovers, and interdependencies in a high-level document such as this.

Aeth ymlaen i ddweud:

The EU/EFSA mechanisms in relation to food and feed safety regulation, enforcement, etc, have developed organically over decades. They work well but they are enormously complicated. It is possible that the UK may fail to maintain those standards inadvertently by failing to appreciate the full complexity of the process.

Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor, **awgrymodd yr Athro Haggarty** y dylai'r ASB a'r FSS ymgysylltu ag EFSA i weld a yw'n ystyried bod dull gweithredu'r fframwaith wedi colli unrhyw beth.

Croestoriadau â meysydd eraill o'r gyfraith

Mae cyfraith diogelwch a hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid yn croestorri â deddfwriaeth iechyd, amaethyddiaeth a'r amgylchedd.

Mae'r fframwaith yn cydnabod bod croesbwyntiau rhwng y fframwaith FFSH a'r fframweithiau arfaethedig ar gyfer y canlynol:

- **safonau cyfansoddiad bwyd a labelu;**
- **labelu, cyfansoddiad a safonau maeth;**
- iechyd a lles anifeiliaid;
- iechyd planhigion; a
- phlaladdwyr.

Fodd bynnag, gall fframweithiau arfaethedig eraill fod yn berthnasol hefyd, fel diogelwch ac amddiffyn iechyd y cyhoedd. Mae'r fframweithiau hyn yn gorwedd ar draws gwahanol rannau o'r llywodraeth. Er enghraifft, mae polisi maeth yn rhan o'r portffolio iechyd yn Llywodraeth Cymru, ond yr ASB sy'n gyfrifol am FFSH.

Bydd diogelwch a hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid hefyd yn rhyngweithio â meysydd eraill o gyfraith yr UE a ddargedwir lle nad oes fframweithiau wedi'u cynllunio. Er enghraifft, nid oes unrhyw fframwaith yn ymdrin â thyfu GMOs. Yn y gwanwyn, fe wnaeth **Defra ymgynghori yn Lloegr** ar atal rhai organebau lle golygwyd eu genynnau (gene-edited) rhag cael eu rheoleiddio yn yr un modd ag organebau a addaswyd yn enetig (genetically modified). Penderfynodd Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig beidio â dilyn fframwaith cyffredin ar amaethyddiaeth (GMOs) ddiwedd 2020. Gallai hyn ei gwneud yn anoddach monitro ac asesu alinio a/neu ymwahanu yn y maes polisi hwn.

4. Rheoli ymwahanu: egwyddorion

Mae'r fframwaith yn nodi egwyddorion anneddfwriaethol ar gyfer sut y bydd y llywodraethau'n gweithio gyda'i gilydd i reoli ymwahanu. Bydd y rhain yn gweithredu ochr yn ochr ag egwyddorion cyfreithiol domestig sydd hefyd yn debygol o effeithio a'r graddau ar gyfer ymwahanu yn y dyfodol. Mae'r adran hon yn disgrifio'r ddwy set o egwyddorion.

4.1. Egwyddorion y fframwaith

Egwyddorion Cyd-bwyllgor y Gweinidogion

Fe wnaeth Llywodraethau'r DU, yr Alban a Chymru **gytuno ar egwyddorion ar gyfer fframweithiau cyffredin** yn 2017, gan gynnwys chwe maen prawf ar gyfer penderfynu pryd y byddai fframweithiau cyffredin yn cael eu sefydlu. **Cymeradwyodd Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon** yr egwyddorion yn 2020.

Mae'r fframwaith FFSH yn nodi bod swyddogion yn cytuno y byddai dwy o'r chwe egwyddor hynny o bwysigrwydd allweddol:

- galluogi marchnad fewnol y DU i weithredu, ond gan gydnabod gwahaniaethau polisi; a
- sicrhau y gall y DU negodi cytundebau masnach newydd a chytuniadau rhyngwladol, ymrwymo iddynt a'u rhoi ar waith, a chydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol.

Fe wnaethant hefyd gytuno ar bwysigrwydd yr egwyddorion a ganlyn:

- parchu'r setliadau datganoli ac atebolrwydd democrataidd y deddfwrfeydd datganoledig; a
- chynnal, o leiaf, hyblygrwydd cyfatebol ar gyfer teilwra polisiau yn unol ag anghenion penodol pob tiriogaeth fel y mae rheolau cyfredol yr Undeb Ewropeaidd yn ei ganiatau.

Mae'r fframwaith yn mynd ymlaen i nodi bod swyddogion yn cytuno mai dull cyffredin fyddai'n cael ei ffafrio ar draws pob maes FFSH sy'n cael ei gysoni ar lefel yr UE. Fe wnaethant gytuno y gallai dulliau cyffredin arwain at ymwahanu ar sail tystiolaeth o hyd lle caiff hyn ei ystyried yn briodol.

Egwyddorion penodol i'r fframwaith

Yn ogystal ag egwyddorion y Cyd-bwyllgor Gweinidogion a ddisgrifir uchod, mae'r fframweithiau yn nodi eu hegwyddorion penodol eu hunain, Mae egwyddorion cyffredinol ar gyfer rhannu ffyrdd o weithio i'w gweld ym mharagraff 5.3 o'r fframwaith. Mae hyn yn cynnwys yr egwyddor a ganlyn:

... all four administrations should have the ability to diverge within their territory (having followed the principles set out in the framework for managing divergence) where the **outputs of risk analysis undertaken by food safety bodies show that divergence is both necessary and proportionate** to the risk to provide appropriate consumer protection in all nations.

Mae'r fframwaith hefyd yn nodi egwyddorion ar gyfer penderfynu a yw newid polisi yn dod o fewn cwmpas y fframwaith. Caiff hyn ei drafod ymhellach yn adran 5.2 isod.

4.2. Egwyddorion cyfreithiol

Cyfraith yr UE a ddargedwir

Mae'r **Gyfraith Fwyd Gyffredinol (Rheoliad (EC) Rhif 178/2002)** yn nodi egwyddorion ar gyfer cyfraith yr UE ar FFSH. Cafodd y rhain **eu dargadw mewn cyfraith ddomestig** ar ddiwedd y cyfnod pontio. Un o'r egwyddorion allweddol yn y Rheoliad yw'r egwyddor ragofalus. Mae Erthygl 7 yn nodi:

In specific circumstances where, following an assessment of available information, the possibility of harmful effects on health is identified but scientific uncertainty persists, provisional risk management measures necessary to ensure the high level of health protection chosen in [Great Britain] may be adopted, pending further scientific information for a more comprehensive risk assessment.

Rhaid i fesurau o'r fath fod yn gymesur a heb fod yn fwy cyfyngol o fasnach ar na'r hyn sy'n ofynnol i amddiffyn iechyd y cyhoedd.

Yn ogystal, mae rhai o Reoliadau'r UE sydd o fewn cwmpas y fframwaith yn dyfynnu egwyddorion **sybsidiaredd** a **chymesuredd** o Gytuniad yr Undeb Ewropeaidd yn eu rhagymadroddion.

Nid yw'r fframwaith yn cyfeirio at yr egwyddorion hyn ac nid yw'n glir pa rôl, os o gwbl, y mae disgwyl iddynt ei chwarae yn ei weithrediad.

Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020

Mae **Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020** yn nodi egwyddorion mynediad at y farchnad ar gyfer a nwyddau a gwasanaethau yn y gyfraith. Yn eu hanfod, maent yn ceisio sicrhau bod y nwyddau sy'n cael eu gwerthu a'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu mewn unrhyw ran o'r DU yn gallu cael eu gwerthu neu eu darparu mewn unrhyw ran arall. Y ddwy egwyddor mynediad at y farchnad yw:

- Yr **egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol ar gyfer nwyddau**: mae nwyddau sy'n cael eu gwneud mewn un rhan o'r Deyrnas Unedig, neu eu mewnfurio iddi, sy'n cydymffurfio â'r gofynion deddfwriaethol perthnasol yn y rhan honno o'r DU, yn gallu cael eu gwerthu mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, heb orfod cydymffurfio â'r gofynion deddfwriaethol perthnasol yn y rhannau eraill hynny. Mae hyn yn golygu bod modd i fwyd neu fwyd anifeiliaid sy'n cael eu caniatáu mewn unrhyw ran o'r DU neu eu mewnfurio i unrhyw ran gael eu gwerthu'n gyffredinol yng Nghymru, hyd yn oed os nad yw'n cydymffurfio â chyfraith Cymru.
- Mae'r **egwyddor dim gwahaniaethu ar gyfer nwyddau** yn gwahardd gwahaniaethu uniongyrchol neu anuniongyrchol ar sail triniaeth wahaniaethol o nwyddau 'lleol' a nwyddau 'sy'n dod i mewn'. Mae hyn yn golygu bod gofynion deddfwriaethol Cymru sy'n trin bwyd neu fwyd anifeiliaid o ran arall o'r DU yn wahanol, ac yn eu rhoi dan anfantais o'i gymharu â bwyd neu fwyd anifeiliaid o Gymru yn gyffredinol yn cael eu gwahardd.

Mae Atodlen 1 y Ddeddf yn nodi eithriadau o'r egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol ar gyfer nwyddau. Mae Rhan 2 o Atodlen 1 yn ymwneud â diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid. Mae'n nodi nad yw'r egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol yn gymwys os caiff pum amod eu bodloni:

1. nod y ddeddfwriaeth yw atal neu leihau symudiad bwyd neu fwyd anifeiliaid anniogel i'r rhan o'r Deyrnas Unedig y mae'r ddeddfwriaeth yn gymwys iddi ('y rhan sy'n cyfyngu') o ran arall o'r Deyrnas Unedig ('y rhan yr effeithir arni');
2. mae'n rhesymol credu bod y bwyd neu'r bwyd anifeiliaid dan sylw mewn perygl penodol o fod yn anniogel, neu'n debygol o fod yn anniogel;
3. byddai symudiad posibl o fwyd neu fwyd anifeiliaid i'r rhan sy'n cyfyngu o'r rhan yr effeithir arni yn fygythiad difrifol i iechyd bodau dynol neu anifeiliaid;
4. mae'r llywodraeth gyfrifol wedi darparu asesiad i'r llywodraethau eraill o'r dystiolaeth sydd ar gael ynghylch y bygythiad i iechyd ac effeithiolrwydd tebygol y ddeddfwriaeth; ac

5. mae modd cyfiawnhau o fewn rheswm bod y ddeddfwriaeth yn angenrheidiol er mwyn mynd i'r afael â'r bygythiad.

Nid oes eithriad cyfatebol ar gyfer FFSH o'r egwyddor peidio â gwahaniaethu ar gyfer nwyddau. Fodd bynnag, o ran gwahaniaethu anuniongyrchol, mae adran 8 o'r Ddeddf yn nodi bod gofyniad yn wahaniaethol os yw'n rhoi nwyddau sy'n dod i mewn i un rhan o'r DU dan anfantais, yn cael effaith andwyol ar y farchnad, ac na ellir yn rhesymol ei ystyried yn fodd angenrheidiol o gyflawni nod cyfreithlon. Mae Adran 8(6) yn nodi mai nodau dilys yw amddiffyn bywyd neu iechyd bodau dynol, anifeiliaid neu blanhigion neu amddiffyn diogelwch y cyhoedd. Gallai hyn gynnwys diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid.

Mae adran 10 o'r Ddeddf yn caniatáu i Weinidogion y DU greu eithriadau newydd o'r egwyddorion mynediad i'r farchnad ar gyfer nwyddau, gan gynnwys rhoi cytundeb ar waith sy'n rhan o fframwaith cyffredin. Nid yw'r fframwaith yn rhoi ystyriaeth i oblygiadau'r Ddeddf.

Gallai'r Ddeddf arwain at anghydfodau cyfreithiol ynghylch a oedd gofyniad rheoliadol ar ddiogelwch bwyd yn dod o fewn cwmpas yr egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol neu'r egwyddor peidio â gwahaniaethu.

4.3. Materion o bwys

Effaith Deddf y Farchnad Fewnol

Fel y rhan fwyaf o fframweithiau cyffredin eraill sydd wedi'u cynllunio, mae'r fframwaith hwn yn ymdrin â deddfwriaeth sydd hefyd yng nghwmpas yr egwyddorion mynediad i'r farchnad yn Deddf y Farchnad Fewnol. Gallai'r egwyddorion gael effaith ar ofynion rheoliadol ymwahanol y cytunwyd arnynt drwy'r fframwaith.

Fe wnaeth **diweddariad ar y fframwaith a gyflwynwyd i Fwrdd yr ASB** ym mis Medi 2020 ddisgrifio'r ffordd yr oedd Bil Marchnad Fewnol y DU (ar y pryd) yn rhyngweithio â'r fframwaith fel maes allweddol i'w ddatrys. Dyma'r ddau fater penodol a godwyd. Yn gyntaf:

It should be noted that the application of mutual recognition could result in Ministers having to accept food and feed products on the market within their remit that the FSA had advised as being unsafe if Ministers in other parts of the UK had taken different decisions. [...]

Er enghraifft, mae'n ymddangos, pe bai un llywodraeth yn cynnig newid polisi i godi rhai cyfyngiadau ar werthu GMOs, a bod asesiad risg ar y cyd yn penderfynu

bod hyn yn ddiogel, gallai'r llywodraethau gytuno i ymwahanu mewn gwahanol rannau o Brydain Fawr. Fodd bynnag, o dan yr egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol, gallai GMOs sy'n cydymffurfio â'r gyfraith mewn un rhan o Brydain Fawr gael eu gwerthu o hyd mewn rhan aral o Brydain Fawr.

Yn ail, roedd yn nodi:

The application of mutual recognition also has the potential, in unforeseen public health emergencies that are not presently covered by legislation, to limit Ministers' ability to act quickly and effectively.

Er enghraifft, mae'n ymddangos y gallai Gweinidogion Cymru gynnig gofynion newydd ar gyfer sefydliadau yng Nghymru yn unig, heb fynd drwy'r broses asesu risg a nodir yn y fframwaith. Gallai hyn ddilyn digwyddiad iechyd y cyhoedd fel yr **achosion E. coli yng Nghymru yn 2005**. Gallai Gweinidogion Cymru ddadlau na chafodd hyn ei ddal gan egwyddorion mynediad y farchnad, gan ei fod yn angenrheidiol ar gyfer amddiffyn iechyd y cyhoedd. Fodd bynnag, gallai hyn fod yn agored i her gyfreithiol.

Mewn **llythyr at Bwyllgor Tŷ'r Arglwyddi ar gyfer Craffu ar Fframweithiau Cyffredin** ar 8 Ionawr 2021, nododd Prif Weithredwr yr ASB y pŵer yn y Ddeddf i eithrio gofynion y cytunwyd arnynt drwy fframweithiau cyffredin o'r egwyddorion mynediad i'r farchnad. Dywedodd:

The FSA is currently engaging with Whitehall departments and devolved administrations to ensure we understand how this should be accounted for in the Framework. The Framework already includes a process for managing divergence, which is still valid, though **may need to include an additional step to allow consideration of whether the market access principles should apply in instances where divergent policies are proposed.** [ein pwyslais]

Ym mis Mawrth 2021, fe wnaeth **Pwyllgor Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi** argymhell:

... the UK Government should work closely with the devolved administrations to develop a consistent and transparent process for using these powers. It should then update the relevant Frameworks to state clearly how and when they will agree exemptions from the market access principles.

Yn ei hymateb, **dywedodd Llywodraeth y DU ei bod yn cytuno** a'i bod mewn trafodaethau gyda'r llywodraethau datganoledig gyda'r bwriad o ddod i gonsensws ar y ffyrdd y dangos tystiolaeth o gytundeb ac a ellid cyflawni hynny drwy ddiweddarau'r Fframweithiau perthnasol neu drwy gytundeb ar wahân. Ym mis Medi 2021, fe wnaeth **Cwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cymru gadarnhau**

fod trafodaethau'n mynd rhagddynt.

Mae'r **Institute for Government** wedi mynegi pryderon y gallai egwyddorion mynediad i'r farchnad ei gwneud yn anoddach i'r llywodraethau ddod i gytundeb drwy fframweithiau cyffredin, gan ddadlau y bydd y senario diofyn yn sicrhau bod eu busnesau'n sicr o gael mynediad at farchnadoedd ei gilydd, gan ddileu'r risg o beidio â dod i gytundeb.

5. Rheoli ymwahanu: yn ymarferol

Mae'r fframwaith yn nodi sut y bydd y llywodraethau'n gweithio gyda'i gilydd ac yn datrys anghydfodau ynghylch ble i alinio a ble i ymwahanu. Fel fframweithiau dros dro eraill, mae'n gosod prosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau a datrys anghydfodau. Mae'n nodi trefniadau llywodraethu manylach na'r rhan fwyaf o fframweithiau dros dro eraill, gan adlewyrchu cymhlethdodau'r gwaith o wneud penderfyniadau yn y maes polisi hwn.

5.1. Strwythurau ar y cyd

Mae'r fframwaith yn ymrwymo Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig i ddulliau ar y cyd ar gyfer:

- dadansoddi risg;
- rheoli prosesau cymeradwyo ac awdurdodi cyn y farchnad;
- cytuno ar newidiadau cyffredin neu ymwahanol i gyfraith FFSH o fewn y cwmpas; a
- datrys anghydfodau.

Bydd y llywodraethau'n ymgysylltu â'i gilydd cyn unrhyw newidiadau arfaethedig i bolisi, ac yn rhannu gwybodaeth am hyn. Mae'r fframwaith yn nodi y dylid ymrwymo i ddarparu adnoddau digonol ar gyfer gweithio ar y cyd. Bydd y llywodraethau hefyd yn cytuno i sefydlu Grŵp Rheoli Fframwaith ar gyfer goruchwyllo'r fframwaith (gweler adran 8 isod).

5.2. Gwneud penderfyniadau a datrys anghydfodau

Newidiadau mewn cwmpas

Mae'r fframwaith yn nodi egwyddorion ar gyfer gwneud newidiadau i gyfraith FFSH yr UE a ddargedwir.

Mae'n nodi y dylai newidiadau fod o fewn cwmpas prosesau'r fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau os:

- byddai penderfyniad mewn maes lle mae pwerau'n dychwelyd yn cael effaith ar unrhyw un o egwyddorion Cyd-bwyllgor y Gweinidogion;
- bwriedir i'r gofynion (diogelwch a hylendid) fod yn gymwys i sefydliadau ledled

y DU (neu'n rhyngwladol) neu gynhyrchion sy'n cael eu marchnata ledled y DU ac sy'n cael eu cysoni ar lefel yr Undeb Ewropeaidd ar hyn o bryd;

- mai cyrff diogelwch bwyd ym mhob un o'r pedair gwlad sy'n gyfrifol am y maes polisi; ac
- nad yw'r mater yn cael ei ystyried yn benodol fel bod y tu allan i'w gwmpas.

Mae'n mynd ymlaen i ddweud y byddai hyn yn cynnwys cynigion ar gyfer newidiadau i gyfraith yr UE a ddargedwir ac ar gyfer deddfwriaeth newydd mewn meysydd polisi sydd wedi'u cysoni ar hyn o bryd o gyfraith yr UE a ddargedwir. Byddai hyn yn cynnwys awdurdodi cyffredin ar gyfer cynhyrchion sydd ar werth ledled Prydain Fawr.

Nod y llywodraethau fydd datblygu dulliau polisi cyffredin lle mae hyn yn briodol (paragraff 5.18). Os ydynt o'r farn nad yw dull wedi'i gysoni yn addas, mae'r llywodraethau'n cytuno i weld a allant gytuno ar ddull cyffredin sy'n darparu ar gyfer y canlyniadau y mae'r cenhedloedd unigol yn eu dymuno, hyd yn oed os yw un neu fwy o'r llywodraethau'n dymuno ymwahanu. Os nad oes unrhyw un o'r llywodraethau o'r farn bod ymwahanu'n dderbyniol, caiff y broses datrys anghydfodau ei chychwyn.

Dadansoddi risg a gwneud penderfyniadau

Mae Rhan 3 o'r fframwaith yn nodi sut y bydd penderfyniadau ar y cyd yn cael eu gwneud. Bydd awdurdodau diogelwch bwyd yn cynnal dadansoddiad risg ar y cyd ar gyfer newidiadau arfaethedig yng nghwmpas y fframwaith.

Mae'r **ASB yn disgrifio dadansoddiad risg** fel:

- **Asesu risg:** yr asesiad gwyddonol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â bwyd a bwyd anifeiliaid. Mae'r fframwaith yn nodi egwyddorion ar gyfer asesu risg ar gyfer bwyd a bwyd anifeiliaid (paragraff 5.11). Bydd prosesau asesu risg yn cynnwys cynrychiolaeth o bob rhan o'r DU. Bydd asesiadau risg yn gyffredinol yn cael eu cynnal ar sail y DU, ond bydd lle hefyd i gynnal asesiadau risg ar gyfer pob rhan unigol o'r DU. Mae'r ASB yn ymrwymo i ymgynghori â'r llywodraeth berthnasol ynghylch materion, tystiolaeth a dadansoddiad ar gyfer eu rhan hwy o'r DU. Mae hefyd yn ymrwymo i her annibynnol fel rhan o'r broses asesu risg.
- **Rheoli risg:** y broses o bwysu a mesur dewisiadau amgen polisi, ystyried asesiadau risg, a dewis opsiynau atal a rheoli. Mae'r fframwaith yn nodi y bydd y broses dadansoddi risg yn dod â swyddogion o bob rhan o'r DU ynghyd i

ystyried cynigion rheoli risg ar faterion sydd o fewn cwmpas y fframwaith. Nid yw cylch gorchwyl y grwpiau rheoli risg ar y cyd a'u haelodaeth wedi'u penderfynu eto.

- **Cyfathrebu risg:** cyfnewid gwybodaeth, cyngor a barn am risg. Nid yw'r fframwaith yn nodi rhagor o wybodaeth am sut y bydd awdurdodau diogelwch bwyd yn gweithio gyda'i gilydd i gyfathrebu risg (gweler adran 5.4 isod).

Bydd yr awdurdodau diogelwch bwyd yn datblygu argymhellion ynghylch a yw ymwahanu'n briodol. Pan fyddant wedi dod i benderfyniad, bydd awdurdodau diogelwch bwyd wedyn yn cyflwyno argymhellion ar y cyd ar gyfer rheoli risg i Weinidogion. Gallai'r rhain fod ar gyfer dull cyffredin neu ar gyfer dull ymwahanol. Os bydd Gweinidogion yn cytuno, caiff y dulliau hyn eu rhoi ar waith.

Ym mis Mawrth 2021, dywedodd **Llywodraeth flaenorol Cymru wrth Bwyllgor Materion Allanol y Bumed Senedd:**

... byddai unrhyw argymhellion ar gyfer gwahanol ddulliau polisi yn cael eu hategu gan dystiolaeth a ystyriwyd drwy broses dadansoddi risg annibynnol, drylwyr yr ASB, sy'n cynnwys ymgynghori â rhanddeiliaid. Byddai Gweinidogion ym mhob un o'r pedair gwlad yn ymwybodol o argymhellion y gwledydd eraill a byddai ganddynt y gallu i godi'r mater i'w drafod gyda'u cymheiriaid o dan broses datrys anghydfodau'r Fframwaith. Ar gyfer unrhyw benderfyniadau terfynol, byddai angen i'r ASB fel yr awdurdod cymwys roi argymhellion i Weinidogion Cymru.

Datrys anghydfodau

Mae'r fframwaith yn nodi prosesau ar gyfer datrys anghydfodau ar lefel swyddogion a gweinidogion.

Mae modd uwchgyfeirio anghydfodau rhwng swyddogion ym mhob awdurdod diogelwch bwyd i'r Cyfarwyddwyr perthnasol ar gyfer pob gwlad (gweler **diagram 2** y fframwaith).

Mae'r broses datrys anghydfodau Gweinidogol yn cael ei sbarduno os bydd anghydfod yn codi ar lefel swyddogion ac nad oes modd ei ddatrys, neu os nad yw un neu fwy o Weinidogion yn cytuno ag argymhellion ar y cyd y cyrff diogelwch bwyd (gweler **diagramau 3 a 4**).

Rhaid i Weinidogion ystyried cyngor gan swyddogion cyn penderfynu a ddylid codi'r mater gyda'u haelodau cyfatebol. Os na all y Gweinidogion ddod i gytundeb ar ôl cyfarfod, byddai anghydfodau'n cael eu huwchgyfeirio i ysgrifenyddiaeth

y Cyd-bwyllgor Gweinidogion drwy'r broses a nodir yn y **Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar Ddatganoli** (sydd wrthi'n cael ei adolygu). Mae'r fframwaith yn nodi mai dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylid ystyried uwchgyfeirio o'r fath.

5.3. Meysydd y tu allan i gwmpas y fframwaith

Mae'r fframwaith yn nodi meysydd polisi FFSH sydd y tu allan i'w gwmpas.

Yn ddarostyngedig i hysbysiad

Mae'r fframwaith yn nodi pryd y bydd angen i'r llywodraethau hysbysu llywodraethau eraill am eu penderfyniadau ynghylch cyfraith a pholisi, ond lle nad oes angen iddynt wneud y penderfyniadau hynny ar y cyd. Dyma fydd y broses lle pan gaiff gwahanol ofynion eu cynnig ar gyfer busnesau sy'n cyflenwi neu gynhyrchion sy'n cylchredeg mewn un rhan o'r DU yn unig.

Yn yr achosion hyn, byddai'n ofynnol i lywodraethau ymgysylltu â'r llywodraethau eraill, gan eu hysbysu am newidiadau arfaethedig, ond ni fyddai angen iddynt fynd drwy'r broses asesu risg ar y cyd.

Mae'r fframwaith yn nodi mai diben hyn yw caniatáu i Weinidogion wneud argymhellion i ddiogelu iechyd y cyhoedd yn dilyn cwestau neu ymchwiliadau i ddamweiniau angheuol yn achos digwyddiadau yn eu rhan hwy o'r DU Mae'n nodi'r enghraifft pan wnaeth Llywodraeth Cymru dynhau'r rheolau diogelwch bwyd yn dilyn yr achosion o E.coli yn 2005.

Y tu allan i gwmpas

Bydd meysydd lle mae cyfraith yr UE a ddargedwir eisoes yn caniatáu ymwahanu rhwng gwahanol rannau o Brydain Fawr y tu allan i gwmpas y fframwaith.

Yn achos y meysydd hyn, mae'r fframwaith yn nodi y dylai'r gweithdrefnau hysbysu ar y cyd a'r trefniadau gweithio presennol barhau yn y meysydd hynny. Mae'r meysydd o'r fath yn cynnwys:

- gorfodi domestig a rheolaethau swyddogol (fel y cwmpas mwy cyfyngedig ar gyfer defnyddio hysbysiadau gweithredu adferol yn Lloegr, o'i gymharu â rhannau eraill o'r DU);
- newidiadau mewn meysydd lle caniateir mesurau cenedlaethol (fel y gwaharddiad ar werthu llaeth amrwd yn yr Alban); ac

- ymdrin â digwyddiadau yn weithredol.

5.4. Materion o bwys

Capasiti'r ASB

Mae'r ASB a'r FSS wedi ymgymryd â swyddogaethau newydd sylweddol o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE. O ganlyniad, bu'n rhaid iddynt gynyddu eu capasiti.

Ym mis Mawrth 2021, **cyhoeddodd Llywodraeth Cymru** ei bod wedi darparu cyllid ychwanegol o £1.5m i'r ASB i '[g]ynyddu'r capasiti staffio i alluogi staff yr ASB yng Nghymru i gyfrannu at ddatblygu argymhellion polisi ar benderfyniadau rheoli risg i Gymru'. Yn 2019/20, roedd yr ASB yn cyflogi **1115 o staff parhaol yn San Steffan** a **38 yng Nghymru**.

Wrth graffu ar y fframwaith, gofynnodd Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi ar gyfer Craffu ar Fframweithiau Cyffredin i Geoff Ogle, Prif Weithredwr Safonau Bwyd yr Alban, am gapasiti'r ASB a'r FSS ar gyfer cyflawni eu swyddogaethau newydd. **Dywedodd:**

... both organisations have had increased resource to deal with some of the consequences of leaving the EU. Both organisations have deliberately focused that additional money and resource into developing risk analysis capacity and, indeed, capability. I am quite satisfied that we will undertake risk analysis in a way that is internationally recognised and is to internationally recognised standards and processes.

Mewn tystiolaeth i Bwyllgor Iechyd a Chwaraeon Senedd yr Alban, **dywedodd yr Athro Paul Haggarty:**

It would be reasonable to conclude that the UK has the scientific capability to support the framework and to represent our interests to the WTO Sanitary and Phytosanitary (SPS) committee.

Fodd bynnag, mae rhai rhanddeiliaid wedi mynegi pryderon am rôl yr ASB wrth wneud penderfyniadau a datrys anghydfodau ynghylch rheoli risg. Dywedodd yr Athro Haggarty hefyd:

The framework places the dispute resolution procedure emphasis on the evidence base and the risk assessment, but it seems more likely that differences between nations will arise primarily in relation to risk management and the interpretation of evidence. **That would make it more difficult to resolve any conflict based on easily identified objective criteria.** [ein pwyslais]

Rôl yr ASB o ran gwneud penderfyniadau

Mae'r ASB yn adran anweinidogol o Lywodraeth y DU a chaiff y mwyafrif o aelodau'r Bwrdd eu penodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros lechyd yn Llywodraeth y DU.

Mae gan Weinidogion lechyd Cymru a Gogledd Iwerddon y pŵer i benodi un aelod i'r Bwrdd. Mae'r Aelod Bwrdd dros Gymru yn cadeirio **Pwyllgor Cyngori ar Fwyd Cymru**. Mae'r Pwyllgor hwn yn cyngori'r ASB ar bolisi bwyd yng Nghymru. Hefyd, mae gan yr ASB Gyfarwyddwr â chyfrifoldeb dros Gymru. Caiff **adroddiad blynyddol** ASB ac **adroddiad blynyddol Cymru** eu gosod gerbron Senedd Cymru, yn ogystal â Senedd y DU.

Mae'r fframwaith yn darparu y bydd yr ASB yn gwneud argymhellion rheoli risg mewn perthynas â Chymru. Os bydd anghydfod yn codi ar lefel swyddogion, bydd modd uwchgyfeirio hyn i Gyfarwyddwr Cymru, i Brif Swyddog Gweithredol a Chadeirydd yr ASB, ac yn olaf i'r broses datrys anghydfod gweinidogol.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru a'r ASB **gongordat ar weithio ar y cyd** yn 2016. Mae hyn yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ar gyfer swyddfa'r ASB yng Nghaerdydd. Ym mis Mawrth 2021, fe wnaeth **Llywodraeth Cymru gadarnhau** fod y concordat yn cael ei adolygu.

Ym mis Mehefin 2021, fe wnaeth **Llywodraeth Cymru gyhoeddi hefyd** adolygiad o weithrediad yr ASB yng Nghymru, i ystyried:

a yw'r strwythurau presennol, y drefn lywodraethu a'r ffordd o ymgysylltu â rhanddeiliaid yn effeithiol ac yn addas i gyflawni cylch gwaith yr Asiantaeth Safonau Bwyd yng Nghymru.

Tryloywder ac ymgysylltu allanol

Mae'r fframwaith yn nodi y bydd cyfathrebu risg yn rhan o'r broses dadansoddi risg ar y cyd. Mae hefyd yn nodi egwyddorion ar gyfer datrys anghydfodau: dylent fod yn seiliedig ar dystiolaeth, yn dryloyw ac yn amserol.

Nid yw'r fframwaith yn rhoi unrhyw fanylion ynghylch sut y bydd y drefn ar gyfer gwneud penderfyniadau a datrys anghydfodau yn dryloyw i randdeiliaid fel busnesau bwyd.

Mewn tystiolaeth i Bwyllgor Archwilio Amgylcheddol Tŷ'r Cyffredin, **dywedodd y Ffederasiwn Bwyd a Diod:**

Under the EU policy-making framework, stakeholders have defined opportunities to provide input to inform policy development. These range from official requests for data to contribute to risk assessment processes through to formally established consultation processes, which provide stakeholders with the opportunity to provide informed feedback on proposed risk management measures. We would like to see similar procedures for stakeholder input and consultation embedded into the Common Framework for Food and Feed Safety and Hygiene.

Nid yw'r fframwaith yn dweud sut y bydd canlyniadau dadansoddi risg yn cael eu cyfathrebu i randdeiliaid a'r cyhoedd, gan gynnwys pan fydd penderfyniadau ymwahanol yn cael eu gwneud mewn gwahanol rannau o'r DU neu Brydain Fawr.

Ym mis Mawrth 2021, fe wnaeth **Llywodraeth Cymru amlinellu** y byddai'r ASB, y Pwyllgor Cyngori ar Fwyd Cymru a phartneriaeth Bwyd Diogel, Cynaliadwy a Dilys Cymru (BDCaDC) i gyd yn cyfrannu at ymgysylltu a chyfathrebu â rhanddeiliaid. Byddai'r asesiadau risg mwyaf sylweddol yn cael eu hystyried yng nghyfarfodydd agored Bwrdd yr ASB a byddai unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth yn destun ymgynghoriad.

Effaith ar arfer cymhwysedd datganoledig

Er bod y fframwaith ei hun yn fframwaith anneddfwriaethol, yn ymarferol, gallai gyfyngu'r broses o arfer cymhwysedd deddfwriaethol a gweithredol, yn yr ystyr ei fod yn gwneud newidiadau arfaethedig yn destun i'r prosesau y mae'n eu sefydlu. Er enghraifft, pe bai Llywodraeth Cymru neu Aelod o'r Senedd yn cynnig deddfwriaeth o fewn cwrmpas y fframwaith, byddai angen i Lywodraeth Cymru ddilyn y prosesau a nodir yn y fframwaith er mwyn bwrw ymlaen â hi.

Mae rheoliadau cywiro yn y maes polisi hwn yn darparu pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru. Mae'r fframwaith yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud penderfyniadau ar y cyd â'r llywodraethau eraill cyn defnyddio'r pwerau hyn.

Os nad oes modd datrys anghydfodau drwy'r fframwaith, mae modd eu hatgyfeirio at y broses datrys anghydfodau yn y **Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar Ddatganoli**. Mae hyn yn gofyn bod un o uwch Weinidogion y DU yn cadeirio cyfarfodydd datrys anghydfod

Mae'r llywodraethau wrthi'n adolygu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ac fe wnaethant gyhoeddi **diweddariad ar hynt y gwaith hwn** ym mis Mawrth 2021. Mae'r diweddariad yn cynnig proses newydd ar gyfer datrys anghydfodau. Byddai

hyn yn gofyn i gyfarfodydd datrys anghydfodau gael eu cadeirio gan berson a gymeradwyir gan bob parti ac i'r llywodraethau geisio cyngor trydydd parti nad yw'n rhwymol. Byddai hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i lywodraethau adrodd ar ganlyniad anghydfodau sy'n cael eu huwchgwyfeirio i gyrff rhyng-weinidogol eu deddfwrfeydd. Fe wnaeth **Llywodraeth flaenorol Cymru groesawu hyn** fel cynnydd. Mae'r adolygiad yn mynd rhagddo o hyd.

6. Rhwymedigaethau rhyngwladol

Rhan o ddiben y fframwaith yw sicrhau y gall y DU, negodi cytundebau masnach a chytuniadau rhyngwladol newydd, ac ymrwymo iddynt, a chydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol; Mae'n rhannu'r nodwedd hon â fframweithiau cyffredin eraill sydd wedi'u cyhoeddi.

Mae Llywodraeth Cymru a'r Senedd yn **gyfrifol am oruchwylio a gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol y DU** mewn meysydd cymhwysedd datganoledig. Mae setliad datganoli Cymru yn golygu bod yn rhaid cadw at rwymedigaethau rhyngwladol mewn sawl ffordd. Er enghraifft, mae'n rhaid i'r camau y mae Gweinidogion Cymru a'r ddeddfwriaeth y mae'r Senedd yn ei phasio fod yn gydnaws â rhwymedigaethau rhyngwladol y DU.

Nid un sefydliad neu gytundeb rhyngwladol sy'n rheoleiddio FFSH. Caiff rhwymedigaethau rhyngwladol sy'n ymwneud â bwyd eu hymgorffori mewn sawl maes a math o rwymedigaethau rhyngwladol, o fasnach bwyd rhyngwladol i ddeddfwriaeth rhyngwladol iechyd y cyhoedd a hawliau dynol. Er enghraifft, mae'r hawl i safon ddigonol o fyw, gan gynnwys bwyd digonol, yn rhan annatod o nifer o gonfensiynau rhyngwladol, gan gynnwys **Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol** y Cenhedloedd Unedig.

Mae'r adran hon yn trafod rhwymedigaethau rhyngwladol y DU y tu allan i'r UE a rhwymedigaethau sy'n deillio o'r berthynas rhwng y DU a'r UE.

6.1. Rhwymedigaethau rhyngwladol y DU

Mae'r fframwaith yn cyfeirio at rwymedigaethau rhyngwladol y tu allan i'r UE ar draws chwe maes:

1. Masnach rhyngwladol

Mae'r fframwaith yn cydnabod mai un o brif amcanion cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid yw:

... facilitate global trade of safe feed and safe, wholesome food by taking into account international standards and agreements when developing the European Union legislation, except where this might undermine the high level of consumer protection pursued by the European Union. (paragraff 3.13)

Ceir cydnabyddiaeth hefyd bod cysoni deddfwriaeth FFSH, o ran sylwedd a dull

gweithredu, yn fuddiol i bartneriaid masnachu rhyngwladol (paragraff 5.1).

Mae paragraff 3.4 o'r fframwaith yn amlinellu, er bod meysydd polisi FFSH yn faterion datganoledig, y gallant orgyffwrdd â masnach ryngwladolyn setliad datganoli'r DU, sef mater sy'n cael eu gadw'n ôl. Ceir cydnabyddiaeth hefyd y gallai rhoi cytundebau masnach ryngwladol ar waith groestorri ag agweddau ar feysydd polisi datganoledig. At hynny, cyfrifoldeb cyffredinol Llywodraeth y DU o hyd yw sicrhau bod y DU yn cydymffurfio â'i rhwymedigaethau masnachu rhyngwladol.

Mae'r fframwaith hefyd yn cydnabod y bydd angen ystyried meysydd trawsbynciol yn y dyfodol, fel rhwymedigaethau masnach ryngwladol, o ran ei weithdrefn datrys anghydfodau (paragraff 12.6).

2. Codex Alimentarius

Mae paragraffau 3.14 yn disgrifio rhwymedigaethau sy'n codi o'r Codex Alimentarius, a ddiffinnir yn Atodiad 3 fel a ganlyn:

Codex Alimentarius is a collection of internationally recognised standards, codes of practice, guidelines, and other recommendations relating to foods, food production, and food safety. Its texts are developed and maintained by the Codex Alimentarius Commission, whose main goals are to protect the health of consumers and ensure fair practices in the international food trade. The Codex Alimentarius is recognized by the World Trade Organisation as an international reference point for the resolution of disputes concerning food safety and consumer protection.

Sefydlwyd y Comisiwn Codex Alimentarius ar y cyd ym 1961 gan Sefydliad Bwyd ac Amaeth y Cenhedloedd Unedig a Sefydliad Iechyd y Byd fel rhan o'u Rhaglen Safonau Bwyd.

Yn ôl **gwefan Sefydliad Masnach y Byd**:

The Codex has developed over 200 standards covering processed, semi-processed or unprocessed foods intended for sale for the consumer or for intermediate processing; over 40 hygienic and technological codes of practice; evaluated over 1000 food additives and 54 veterinary drugs; set more than 3000 maximum levels for pesticide residues; and specified over 30 guidelines for contaminants.

Mae'r fframwaith yn esbonio'r gweithgareddau a gyflawnir gan Defra a'r ASB yn y Comisiwn Codex Alimentarius a bod cynlluniau ar y gweill i gynyddu'r gweithgaredd hwn.

3. Sefydliad Masnach y Byd

Mae paragraff 3.15 o'r fframwaith yn disgrifio rhwymedigaethau sy'n deillio o aelodaeth y DU o Sefydliad Masnach y Byd. Mae'n nodi'n benodol bod y DU wedi ymgymryd â rhwymedigaethau newydd ym Mhwyllgor Glanweithdra a Ffytoiechydol Sefydliad Masnach y Byd, er nad yw'n glir beth yw'r rhain. Adeg cyhoeddi, nid oedd y wybodaeth hon ar **dudalen we Sefydliad Masnach y Byd ar gyfer y DU.**

Mae'r fframwaith yn disgrifio Cytundeb Glanweithdra a Ffytoiechydol Sefydliad Masnach y Byd, gan ddweud ei fod yn nodi'r rheolau sylfaenol ar gyfer safonau diogelwch bwyd ac iechyd anifeiliaid a phlanhigion. Fodd bynnag, **nid yw'r cytundeb ynddo'i hun yn gosod safonau.** Yn hytrach mae'n annog gwladwriaethau i sefydlu mesurau glanweithdra a ffytoiechydol sy'n gyson â safonau rhyngwladol ac yn ymwneud â chymhwysio rheoliadau. Mae **Sefydliad Masnach y Byd wedi egluro** nad yw'n datblygu safonau o'r fath, ac na fydd yn gwneud hynny, gan mai cyrff rhyngwladol eraill sy'n datblygu'r rhain. I lawer o wladwriaethau, gan gynnwys y DU, mae rhwymedigaethau glanweithdra a ffytoiechydol yn rhan o gyfundrefnau domestig a chytundebau rhyngwladol (cytundebau masnach fel arfer) ag eraill. Efallai bod y rhain yn bodloni safonau rhyngwladol, neu'n mynd ymhellach na hwy.

4. Cytundeb Belfast (Gwener y Groglith)

Mae paragraffau 3.21-3.25 o'r fframwaith yn nodi 'ystyriaethau ar gyfer Gogledd Iwerddon'. Mae paragraff 3.23 yn nodi bod darpariaethau **Cytundeb Gwener y Groglith**, gan gynnwys Ail Linyn y Cytundeb, i'w parchu. Mae'r Ail Linyn yn sefydlu'r Cyngor Gweinidogol Gogledd-De i ddod â'r rheini sydd â chyfrifoldebau gweithredol yng Ngogledd Iwerddon a Llywodraeth Iwerddon, a hynny er mwyn:

... develop consultation, co-operation and action within the island of Ireland - including through implementation on an all-island and cross-border basis - on matters of mutual interest within the competence of the Administrations, North and South.

Mae dibenion, nodau a threfniadau ymarferol y Cyngor i'w gweld yn yr Ail Linyn. Mae hyn yn cynnwys dyletswydd i ystyried dimensiwn yr UE ynghylch materion perthnasol ac i gynrychioli barn y Cyngor yn yr UE (paragraff 17). Caiff meysydd cydweithredu penodol eu rhestru hefyd fel Atodiad, gan gynnwys amaethyddiaeth, yr amgylchedd ac iechyd.

5. Polisi tramor

Mae **Concordat dros dro** pedair llywodraeth y fframwaith yn ailddatgan y ffaith mai mater a gedwir yn ôl yw polisi tramor ac y bydd Llywodraeth y DU yn cadw cyfrifoldeb cyffredinol dros lunio polisi'r DU. Fodd bynnag, mae'r fframwaith yn ymrwymo Llywodraeth y DU i gynnwys:

the devolved administrations fully in discussions about the formulation of UK policy in this area as outlined in the current Devolution: Memorandum of Understanding (currently under review). (paragraff 2.4).

At hynny, mae troednodyn i'r paragraff hwn yn ychwanegu:

The text in 2.4 recognises that discussions are ongoing on the operation of Common Frameworks in areas where they intersect with the reserved matter of international trade negotiations. The outcome of these discussions will inform the content of all framework concordats, including FFSH. The text at 2.4 should therefore be considered only a 'placeholder' while those discussions continue and will be formally agreed later in the process when more time is available to complete discussions.

Felly, efallai y bydd angen diweddarau'r rhan hon o'r fframwaith.

6. 'Egwyddorion rhyngwladol'

Mae'r fframwaith yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal asesiadau risg FFSH yn unol ag 'egwyddorion rhyngwladol cydnabyddedig' (paragraff 5.11). Fodd bynnag, nid yw'n glir at ba fath o egwyddorion y mae hyn yn cyfeirio ato, na pha rai.

6.2. Rhwymedigaethau sy'n codi o'r berthynas rhwng y DU a'r UE

Mae rôl flaenorol y DU yn y broses o wneud penderfyniadau gan yr UE ym maes FFSH, a'i hymgysylltiad blaenorol â hyn, wedi'i nodi'n fanwl ym mharagraffau 3.8-3.11 o'r fframwaith.

Gan fod y DU bellach wedi ymadael â'r UE, mae dwy brif ffynhonnell o rwymedigaethau sydd gan y DU yn codi o'i pherthynas â'r UE – y Cytundeb Masnach a Chydweithrediad a Phrotocol Gogledd Iwerddon, sy'n rhan o'r Cytundeb Ymadael.

Rhwymedigaethau sy'n codi o Gytundeb Masnach a Chydweithrediad y DU a'r UE

Mae **Cytundeb Masnach a Chydweithrediad y DU a'r UE** yn ymdrin â meysydd sy'n ymwneud â'r fframwaith, gan gynnwys darpariaethau SPS a darpariaethau tegwch yn y farchnad. Mae hyn yn cynnwys dyletswydd i beidio â gostwng na gwanhau safonau, er enghraifft:

- Un o'r amcanion SPS yw gwella cydweithrediad ac i'r DU a'r UE gydweithredu mewn sefydliadau rhyngwladol perthnasol i ddatblygu safonau, canllawiau ac argymhellion rhyngwladol ynghylch iechyd anifeiliaid, diogelwch bwyd ac iechyd planhigion (Erthyglau 69 ac 82).
- Mae'n ddyletswydd ar y DU a'r UE i sicrhau nad yw unrhyw weithdrefnau a chymeradwyaethau SPS gofynnol sy'n ymwneud ag amodau mewnforio o ran diogelwch bwyd, iechyd anifeiliaid neu iechyd planhigion yn fwy beichus nac yn cyfyngu'n fwy ar fasnach nag sy'n angenrheidiol (Erthygl 73)
- Mae'n ddyletswydd ar y DU a'r UE i hysbysu ei gilydd am fater diogelwch bwyd arwyddocaol a nodwyd gan y naill barti neu'r llall a gallant ofyn am ymgynghoriadau technegol â'i gilydd, y mae'n rhaid iddynt ymateb iddynt heb oedi gormodol. Rhoddir dyletswydd benodol ar bob parti i geisio darparu gwybodaeth sy'n angenrheidiol i osgoi tarfu ar fasnach ac i ddod o hyd i ddatrysiad sy'n dderbyniol i'r ddwy ochr (Erthygl 80). Cyfeiriwyd at y ddyletswydd hon mewn **llythyr gan yr ASB** at Bwyllgor Craffu Tŷ'r Arglwyddi ar Fframweithiau Cyffredin, dyddiedig 8 Ionawr 2021.
- Mae dyletswyddau i gadw at ofynion sawl cytundeb rhyngwladol arall a phenderfyniadau sefydliadau rhyngwladol i'w gweld drwy'r Cytundeb Masnach a Chydweithrediad cyfan, gan gynnwys Sefydliad Bwyd ac Amaeth y Cenhedloedd Unedig a Phwyllgor SPS Sefydliad Masnach y Byd.

Bydd elfennau eraill o'r Cytundeb Masnach a Chydweithrediad hefyd yn berthnasol i'r gwaith o ddatblygu fframweithiau cyffredin. Er enghraifft, mae strwythur llywodraethu'r Cytundeb Masnach a Chydweithrediad yn sefydlu sawl pwyllgor a gweithgor, gan gynnwys Pwyllgor Arbenigol Masnach y DU a'r UE ar Fesurau SPS. Fodd bynnag, nid yw'r Cytundeb Masnach a Chydweithrediad yn darparu'n benodol ar gyfer mewnbwn gan yr awdurdodau datganoledig neu leol sy'n gyfrifol am ei weithredu.

Rhwymedigaethau sy'n codi o Gytundeb Ymadael y DU a'r UE (gan gynnwys Protocol Iwerddon a Gogledd Iwerddon)

Mae Protocol Gogledd Iwerddon yn cynnwys rhwymedigaethau pellach yr UE a rhyngwladol sy'n ymwneud â'r fframwaith, er enghraifft:

- Ar gyfer nwyddau sy'n symud o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon, mae cyfraith bwyd yr UE a restrir yn Atodiad 2 (a newidiadau iddi yn y dyfodol) yn parhau i fod yn gymwys i Ogledd Iwerddon. Mae'r ddeddfwriaeth hon hefyd yn gymwys i weddill y DU i'r graddau y cafodd ei throsi i gyfraith yr UE a ddargedwir.
- Ar gyfer nwyddau sy'n symud o Ogledd Iwerddon i Brydain Fawr, mae ymrwymiad Llywodraeth y DU i sicrhau **mynediad dilyffethair** rhwng Gogledd Iwerddon a Phrydain Fawr yn golygu y gall nwyddau cymwys symud yn rhydd gan fwyaf, gyda rhai eithriadau. Dylid cymhwyso cyfraith bwyd yr UE a restrir yn Atodiad 2 sy'n gwahardd neu'n cyfyngu ar allforio nwyddau o Ogledd Iwerddon i Brydain Fawr dim ond i'r graddau sy'n ofynnol gan unrhyw rwymedigaethau rhyngwladol yr UE (Erthygl 6(1), Protocol Gogledd Iwerddon).
- Rhaid i'r DU hefyd sicrhau ei bod yn rhoi'r amddiffyniad llawn i'r gwaharddiadau a'r cyfyngiadau ar allforio nwyddau o'r UE i drydydd gwledydd, fel y nodir yng nghyfraith yr UE (Erthygl 6(1), Protocol Gogledd Iwerddon).
- Mae Erthygl 11 o'r Protocol yn gosod dyletswyddau ar y DU, yr UE, y Cydbwyllgor a'r Pwyllgor Arbenigol ar weithredu'r Protocol i gynnal yr amodau angenrheidiol ar gyfer cydweithredu parhaus rhwng y Gogledd a'r De. Mae'r meysydd a restrir yn cynnwys yr amgylchedd, iechyd ac amaethyddiaeth. Er na chyfeirir yn benodol ati, mae Erthygl 11 yn adlewyrchu gofynion **Cytundeb Belffast (Gwener y Groglith)**.

Ers iddo ddod i rym, mae'r Protocol wedi bod yn destun **sawl anghydfod rhwng y DU a'r UE**, gan arwain Llywodraeth y DU i gynnig newidiadau i'w weithrediad mewn **papur gorchymyn** ym mis Gorffennaf 2021.

Mae'r UE wedi **gwrthod ailnegodi'r Protocol** ond dywedodd y byddai'n parhau i geisio atebion creadigol i oresgyn yr anawsterau y mae dinasyddion yng Ngogledd Iwerddon yn eu hwynebu wrth iddo gael ei weithredu. Ym mis Medi, **dywedodd yr UE** ei fod yn gobeithio datrys yr holl faterion sy'n weddill erbyn diwedd 2021.

Dull gweithredu pedair llywodraeth

Mae'r fframwaith yn nodi:

While the circumstances in Northern Ireland will be different as a result of the Northern Ireland Protocol, officials and Ministers will continue to be involved in the framework's processes and governance structures.

Mae'r pedair llywodraeth yn ymrwymo i ymgysylltu â'i gilydd ar y cyfle cyntaf wrth ystyried newidiadau newydd i bolisi. Mae'r fframwaith yn nodi y dylai hyn gynnwys trafod newidiadau 'lle bo hynny'n bosibl' sy'n cael eu cynnig yn y Cyd-Weithgor Ymgynghorol a phwyllgorau eraill sy'n cael eu sefydlu o dan y Protocol (5.7). Fodd bynnag, nid yw'n nodi mecanwaith ar gyfer ymgysylltu rhwng strwythurau llywodraethu'r Protocol a'r fframwaith.

Mewn tystiolaeth i Bwyllgor Archwilio Amgylcheddol Tŷ'r Cyffredin, **dywedodd y Ffederasiwn Bwyd a Diod:**

[I]t remains unclear how the Common Framework will operate practically if Northern Ireland's agri-food regulatory system starts to diverge with the GB regulatory system over time as a result of the Northern Ireland Protocol.

Dywedodd y Ffederasiwn Bwyd a Diod ei fod yn cefnogi'r broses ymgeisio sengl i fusnesau wneud cais am gymeradwyaeth cyn y farchnad ac ail-awdurdodiadau ar gyfer marchnad Prydain Fawr, ond nododd fod yn rhaid i fusnesau sy'n gwneud cais am yr un awdurdodiad ar gyfer marchnad Gogledd Iwerddon hefyd gyflwyno ceisiadau ar wahân i'r corff perthnasol a nodir yn neddfwriaeth yr UE. Gallai'r dyblygu hyn fod yn rhwystr i fusnesau bwyd sy'n dymuno rhoi rhai cynhyrchion ar farchnad y DU, ond nad ydynt yn allforio i'r UE.

Newidiadau polisi Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon

Mae'r fframwaith yn nodi y bydd swyddogion a Gweinidogion Gogledd Iwerddon yn gallu cymryd rhan mewn trafodaethau ar sut y bydd ymwahanu posibl yn cael ei reoli ledled y DU, hyd yn oed pan fydd y materion hynny'n dod o fewn cwmpas Protocol Gogledd Iwerddon.

Mewn llythyr at Bwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi, **dywedodd Prif Weithredwr yr ASB:**

Changes to food and feed safety and hygiene legislation that are being considered for Great Britain will be considered through the risk analysis process as set out in the Framework. The process will always take account of data from all four nations of the UK and consider the impact

on consumers across all four UK nations. Officials in Northern Ireland will be able to provide input at all stages of the process. Where the outputs of the risk analysis process demonstrate that it is appropriate, the same risk management approach as that applied in Northern Ireland will be recommended to Ministers in Great Britain. There will also be instances where different risk management approaches are appropriate.

When there is divergence between Northern Ireland and Great Britain in any policy area in scope of food and feed safety and hygiene law, Northern Ireland businesses will continue to have unfettered market access to Great Britain, as provided for in the UK Internal Market Act.

Nododd hefyd y byddai Gweinidogion yng Ngogledd Iwerddon yn cael eu hysbysu o newidiadau i bolisi Prydain Fawr ac y gallent godi anghydfod drwy'r fframwaith pe byddent yn gwrthwynebu

Newidiadau i bolisi'r UE sy'n gymwys yng Ngogledd Iwerddon yn unig

Mae'r fframwaith yn nodi y bydd rheoliadau'r UE yn gymwys i nwyddau a gymeradwyir yng Ngogledd Iwerddon, a allai wedyn fynd i mewn i farchnad Prydain Fawr. Mae'n nodi'r hyn a ganlyn:

... full risk analysis may not be undertaken for some European Union regulations assessed as routine at triage. Those European Union regulations assessed as non-routine at triage would be prioritised for risk analysis as appropriate to the issue.

Fe wnaeth **Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi ar gyfer Craffu ar Fframweithiau Cyffredin ysgrifennu** at Brif Weithredwr yr Asiantaeth Safonau Bwyd ym mis Rhagfyr gyda chwestiynau am y rhyngweithio rhwng y fframwaith a'r Protocol. Yn ei hateb, **dywedodd y Prif Weithredwr:**

The Framework does not [...] enable continued alignment with the EU law in the rest of Great Britain.

However, non-routine proposals (for example, where there is significant consumer or political interest or the potential for existing regulations to be undermined) that are under consideration through the EU's risk analysis process (which would ultimately apply in Northern Ireland), may also be subjected to UK risk analysis. If a food safety concern is identified regarding a change coming into effect in Northern Ireland, Ministers will be advised and there will be opportunity to raise the issue through the committees established under the Protocol.

Aeth ymlaen i ddweud y byddai newidiadau arferol i gyfraith diogelwch bwyd yr UE sy'n gymwys yng Ngogledd Iwerddon yn cael eu monitro ond heb eu hystyried fel mater o drefn drwy ddadansoddiad risg y DU, a hynny gan nad oes gan y DU yr adnoddau i wneud hyn na'r mynediad at y data angenrheidiol.

Mewn tystiolaeth i Bwyllgor Iechyd a Chwaraeon Senedd yr Alban, **mynegodd yr Athro Paul Haggarty bryderon** am y canlyniadau i fusnesau ym Mhrydain Fawr o beidio ag olrhain newidiadau yng nghyfraith a pholisi'r UE:

If the UK, and Scotland in particular, wish to maintain exports to the EU, and continue to import from the EU, then it will have to react on the same timescale by constantly tracking these changes and either implementing the same procedures or choosing not to on specific products or food categories. Either way, it is important for Scotland and the UK to constantly monitor the regulatory environment in the EU and notify food exporters and importers of the implications of changes for their sector. Detailed mechanisms for this should be included in the framework.

Fe wnaeth **Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi** argymhell bod newidiadau polisi a gyflwynir yng Ngogledd Iwerddon drwy'r Protocol yn cael eu hystyried gan Weinidogion yn yr un modd ag y mae newidiadau polisi ymwahanol a awgrymir gan weinyddiaethau eraill y DU yn cael eu hystyried drwy'r Fframweithiau Cyffredin. Dywedodd Llywodraeth y DU ei bod yn cytuno: "insofar as these decisions concern matters within a Common Framework policy area with a devolved intersect, they should be routinely considered through that Common Framework."

Fe a wnaeth y **Pwyllgor argmell hefyd**:

... frameworks that include a major intersection with the Protocol should include processes for reporting on the divergence that occurs and its effects, and that the results of these should be forwarded to the EU for information.

Dywedodd Llywodraeth y DU ei bod yn cytuno:

... in principle with the Committee's recommendation and considers that there is likely to be value in reporting on divergence, but details of how to approach this are a matter for individual departments.

6.3. Materion o bwys

Rôl y DU mewn cyrff rhyngwladol

Mae'r fframwaith yn cyfeirio at weithgareddau'r DU mewn sawl fforwm rhyngwladol; fodd bynnag, nid oes llawer o fanylion wedi cael eu darparu.

Nid yw'n glir a oes rôl yn cael ei hystyried ar gyfer y llywodraethau datganoledig yn y maes hwn yn y Comisiwn Codex Alimentarius (fel y nodir mewn **fframweithiau cyffredin eraill**).

Mae hyn hefyd yn gymwys i natur a chwmpas rhwymedigaethau newydd y DU

ym Mhwyllgor Glanweithdra a Ffytioiechydol (SPS) Sefydliad Masnach y Byd.

Cyfraith ryngwladol

Mae'r fframwaith yn cyfeirio at nifer o gytundebau ac egwyddorion rhyngwladol y bydd yn rhyngweithio â nhw. Fodd bynnag, mae ei ddisgrifiad o Gytundeb SPS Sefydliad Masnach y Byd yn awgrymu ei fod yn cyflawni rôl nad yw mewn gwirionedd. Mae gan y cytundeb rôl bwysig o ran darparu fframwaith i annod gwladwriaethau i sefydlu rheolau sylfaenol ar gyfer diogelwch bwyd ac iechyd anifeiliaid a phlanhigion yn unol â safonau rhyngwladol. Nid yw ynddo'i hun yn gosod safonau.

Bydd hefyd angen deall y fframwaith yng nghyd-destun rhwymedigaethau newydd y DU o dan Cytundeb Masnach a Chydweithredu y DU a'r UE. Adeg ysgrifennu, mae'r llywodraethau datganoledig wedi bod i gyfarfodydd cychwynnol pwyllgorau a sefydlwyd gan strwythur llywodraethu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu ym meysydd y fframwaith.

Bydd y fframwaith yn gweithredu ochr yn ochr â nifer o offerynnau deddfwriaethol rhyngwladol a domestig eraill, fel Cytundeb Gwener y Groglith (Belffast), Protocol Gogledd Iwerddon, Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020 a Chytundeb Masnach a Chydweithrediad y DU a'r UE. Gallai asesiad wedi'i ddiweddarau o effaith gyfun y rhain ar y fframwaith gynnig mwy o eglurder.

Ar ben hyn, mae'r fframwaith yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal asesiadau risg FFSH yn unol ag 'egwyddorion rhyngwladol cydnabyddedig'. Fodd bynnag, nid yw'n glir at ba egwyddorion y mae hyn yn cyfeirio, nac at y math o egwyddorion (er enghraifft, egwyddorion gwleidyddol neu gyfreithiol rhyngwladol). Gall egwyddorion rhyngwladol gael eu dehongli'n wahanol gan wahanol wladwriaethau, sydd felly'n creu effeithiau gwahanol. Er enghraifft, gallai **cymhwyso'r egwyddor ragofalus**, sy'n egwyddor allweddol o gyfraith amgylcheddol ryngwladol, effeithio ar berthynas y DU â phartneriaid masnachu sy'n mabwysiadu dehongliad gwahanol o'r egwyddor.

Polisi tramor

Mae'r fframwaith yn esbonio bod trafodaethau pedair llywodraeth yn mynd rhagddynt ynghylch gweithrediad fframweithiau cyffredin yn y meysydd lle maent yn croestorri â negodiadau masnach rhyngwladol, sy'n fater a gedwir yn ôl.

Yn hynny o beth, mae'n egluro y dylid ystyried ei adran ar ddatblygu polisi tramor y

DU yn y dyfodol fel dalfan nes bod modd mewnosod diweddariad.

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau datganoledig yn ystyried sut y dylent weithio gyda'i gilydd ar faterion rhyngwladol drwy'r Adolygiad Cysylltiadau Rhynglywodraethol. Cyhoeddwyd **diweddariad ar hynt yr adolygiad** ym mis Mawrth 2021. Ym mis Medi, fe wnaeth **Cwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cymru ddweud** bod peth optimistaeth ar hyn o bryd ei bod yn posibl cael rhyw fath o eiriad at ei gilydd.

Er bod y testun cyfredol yn cynghori y bydd Llywodraeth y DU yn cynnwys y gweinyddiaethau datganoledig yn llawn mewn trafodaethau ynghylch llunio polisi'r DU yn y maes hwn, bydd angen ailedrych ar y fframwaith yng ngoleuni unrhyw ddull gweithredu y bydd y pedair llywodraeth yn cytuno arno yn y dyfodol.

Masnach ryngwladol a Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020

Mae **Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020** yn creu rhagdybiaeth fod modd gwerthu nwyddau sy'n cael eu mewnfario i un ran o'r DU mewn rhan arall o'r DU . Pe bai Llywodraeth y DU yn penderfynu newid polisi FFSH Lloegr er mwyn caniatáu, er enghraifft, mewnfario cynhyrchion amaethyddol o UDA, gellid gwerthu'r cynhyrchion yn Lloegr, Cymru a'r Alban. Byddai hyn yn digwydd waeth beth yw polisi Llywodraeth Cymru neu Lywodraeth yr Alban i'w cyfyngu neu eu gwahardd.

Gall Llywodraeth y DU greu esemptiadau o'r Ddeddf i ddod â chytundeb i rym sy'n rhan o fframwaith cyffredin. Fodd bynnag, nid yw fersiwn gyfredol y fframwaith yn nodi ble y byddai esemptiadau o'r fath yn cael eu gwneud (gweler adran 4.2 uchod).

7. Ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid

Ym mis Mawrth 2021, **gofynnodd Pwyllgor Materion Allanol y Bumed Senedd** wrth Lywodraeth Cymru sut yr aeth ati i ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth baratoi'r fframwaith amlinellol.

Dywedodd Llywodraeth Cymru ar y pryd:

Cynhaliwyd digwyddiad ymgysylltu ar-lein gyda chynrychiolaeth o'r diwydiant bwyd, gan gynnwys cynrychiolaeth o Gymru. Rhoddwyd copi o amlinelliad y fframwaith drafft i'r rhai a oedd yn bresennol ac fe'u gwahoddwyd i wneud sylwadau.

[...]

Roedd y rhanddeiliaid yn gefnogol o ddiben ac egwyddorion y fframwaith. Dywedodd rhanddeiliaid eu bod hefyd yn teimlo eu bod yn cael sicrwydd o'r cynigion ar gyfer gwneud penderfyniadau ar y cyd a mecanweithiau datrys anghydfodau.

Mewn tystiolaeth i Bwyllgor Archwilio Amgylcheddol Tŷ'r Cyffredin, **dywedodd y Ffederasiwn Bwyd a Diod** y cafodd wahoddiad i roi adborth ar grynodedeb o'r fframwaith arfaethedig ac i ddigwyddiad i rhanddeiliaid oedd yn 'drefnus'. Fodd bynnag, dywedodd:

... the feedback process was time-constrained and was undertaken on the basis of a summary of the provisional Common Framework, as the latter has only recently been published. These factors did limit our opportunity to seek detailed feedback from members of the FDF.

Dywedodd y Ffederasiwn Bwyd a Diod ei fod yn nodi bod materion rhyngweithio â Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020 a'r berthynas â'r UE yn y dyfodol i'w datrys o hyd, ac y byddai'n gwerthfawrogi cadarnhad y byddai mewnbyn rhanddeiliaid pellach yn cael ei geisio pe bai'r rhain yn arwain at newidiadau sylweddol i'r Fframwaith Cyffredin dros dro.

Fodd bynnag, mae rhai rhanddeiliaid wedi nodi nad oeddent yn teimlo bod ymgynghori digonol wedi digwydd. Mewn tystiolaeth i Bwyllgor Craffu Tŷ'r Arglwyddi ar Fframweithiau Cyffredin, **dywedodd cynrychiolydd NFU Cymru, Huw Thomas** nad oeddent wedi cymryd rhyw lawer o ran yn hyn, a'u bod yn teimlo'u bod yn y tywyllwch braidd ynghylch proses y fframweithiau cyffredin.

Dywedodd Aodhán Connolly, Cyfarwyddwr Consortiwm Manwerthu Gogledd Iwerddon:

As for consultation on the frameworks, we have had some from the FSA in Northern Ireland, but that is about it. Given the importance of this to NI to GB and GB to NI, and the fact that we are the people at the coalface, I would have assumed that we would have had a lot more consultation on this.

Mae'r Ffederasiwn Bwyd a Diod ac NFU Cymru yn cefnogi'r defnydd o fframwaith cyffredin yn seiliedig ar ddull cydsyniol rhwng pedair llywodraeth y DU yn y maes polisi hwn. Mae NFU Cymru a Food Standards Scotland **wedi dweud** nad oes fawr o awydd i wahanol rannau o'r DU fod yn wahanol dim ond er mwyn bod yn wahanol.

8. Adolygu a diwygio

Mae'r fframwaith yn amlinellu sut y caiff ei adolygu a'i ddiwygio yn y dyfodol a sut bydd y llywodraethau'n adrodd ar ei weithrediad. Mae'n gwneud hyn mewn ffordd weddol debyg i'r rhan fwyaf o **fframweithiau eraill sydd wedi'u cyhoeddi**.

8.1. Y broses adolygu

Mae paragraff 9.3 o'r fframwaith yn nodi y caiff Grŵp Rheoli Fframweithiau FFSH ei sefydlu. Bydd hyn yn cynnwys uwch swyddogion o gyrff diogelwch bwyd ym mhob un o'r pedair gwlad. Mae cylch gorchwyl y grŵp wedi'i nodi yn Atodiad IV.

Bydd y grŵp hwn yn gyfrifol am adolygu'r fframwaith ac ystyried gwelliannau a gyflwynir gan swyddogion o unrhyw un o'r gwledydd. Bydd unrhyw anghydfodau'n cael eu huwchgyfeirio drwy broses datrys anghydfodau'r swyddogion.

Bydd y Grŵp Rheoli Fframweithiau yn adolygu'r fframwaith am y tro cyntaf flwyddyn ar ôl iddo gael ei weithredu (paragraff 11.1). Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i Fyrddau'r ASB/FSS, Gweinidogion portffolio a'r Cydbwyllgor Gweinidogion (Negodiadau Ewropeaidd). Yna bydd y Grŵp Rheoli Fframweithiau yn cynnig amserlenni i'w hadolygu yn y dyfodol. Mae paragraffau 9.6 a 12.9 yn cyfeirio at adolygiadau blynyddol parhaus o'r fframwaith.

Bydd yr ASB ac FSS hefyd yn adolygu eu **Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth** yn flynyddol. Mae **disgwyl i'r adroddiadau blynyddol ar y fframwaith adlewyrchu** canlyniadau'r adolygiadau hyn.

Bydd y Concordat pedair llywodraeth yn cael ei adolygu'n ffurfiol ymhen blwyddyn a thair blynedd o ddyddiad ei weithredu a phob pum mlynedd wedi hynny. Rhaid i Weinidogion ym mhob llywodraeth gytuno ar newidiadau i'r Concordat.

8.2. Materion o bwys

Rôl seneddau a rhanddeiliaid

Nid yw'r fframwaith yn rhoi unrhyw rôl i'r Senedd na rhanddeiliaid wrth adolygu a diwygio'r fframwaith yn y dyfodol, nac yn awgrymu y bydd adolygiadau o'r fframwaith yn cael eu cyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r **ASB wedi cadarnhau** y bydd yr adroddiadau blynyddol yn cael eu cyhoeddi a dywedodd **Llywodraeth flaenorol Cymru** y byddent yn cael eu gosod gerbron y Senedd.
